TLWS YR IFANC

Un o uchafbwyntiau Eisteddfod yr ysgol bob blwyddyn yw canlyniad cystadleuaeth y gadair a Tlws yr Ifanc. Huw Foulkes, cyn ddisgybl o'r ysgol oedd y beirniad eleni. Fe ddyfarnodd o mai Alaw Prys oedd yn haeddu Tlws yr Ifanc eleni. Disgybl ym mlwyddyn 9 yw Alaw sydd yn wyneb cyfarwydd o fewn timau pêl chwaraeon yr ysgol. Y flwyddyn nesaf mae Alaw yn gobeithio astudio cerdd ac addysg gorfforol ar gyfer TGAU. Ymhlith ei diddordebau mae chwaraeon a chwarae'r corn.

Wedi ei llwyddiant cefais air sydyn gyda hi.

Sut deimlad oedd ennill y tlws?

Teimlad gwych, ond roeddwn yn ofnadwy o nerfus rhag ofn i fi sefyll yn rhu fuan neu eistedd ar y llwyfan pan oedd fod i sefyll!

Dweud yn fyr beth oedd cynnwys dy stori?

Bachgen o'r enw Huw oedd y prif gymeriad. Roedd o a'i deulu yn byw yng Nghapel Celyn pan gafodd Tryweryn ei fodd er mwyn cael cronfa ddwr i Lerpwl. Roedd rhaid iddo adael yr ardal a ffeindio rhywle arall i fyw fel pawb yn yr ardal.

A fuaset yn hoffi parhau i ysgrifennu yn y dyfodol?

Byswn oherwydd mae yn wahanol i fy niddordebau eraill ac yn rywbeth 'relaxing' i wneud yn fy amser sbar.

Llongyfarchiadau mawr i Alaw unwaith eto a dymunwn pob hwyl iddi yn y dyfodol.